# Plu'r Gweunydd

PAPUR BRO LLANGADFAN, LLANERFYL, FOEL, LLANFAIR CAEREINION, ADFA, CEFNCOCH, LLWYDIARTH, LLANGYNYW, CWMGOLAU, DOLANOG, RHIWHIRIAETH, PONTROBERT, MEIFOD, TREFALDWYN A'R TRALLWM.

454 Ebrill 2020 80c


## Richard

Roedd fel petae daeargryn wedi ysgwyd yr ardal gyfan i'w seiliau pan ddaeth y newyddion am farwolaeth Richard Llysun trwy ddamwain erchyll. Gwelwyd nifer o deyrngedau diffuant iddo yn y papurau newydd a'r cyfryngau cymdeithasol o bob cwr o Gymru a'r byd. Roedd yn uchel iawn ei barch o fewn cymuned eang ac mae hynny'n cynnwys ni fel golygyddion a swyddogion Plu'r Gweunydd. Roedd brwdfrydedd a gweledigaeth Richard fel Cadeirydd y papur bro yn rhoi hyder i'r gweddill ohonom gario 'mlaen pan oedd ein hysbryd efallai yn isel. Anghofiwn ni fyth am ei erthyglau misol yn sôn am ei fywyd o ddydd i ddydd ar y fferm yn Llysun. Roedd Richard yn onest iawn yn ei erthyglau ac yn barod i rannu'r llwyddiannau yn ogystal â'r methiannau gyda'r darllenwyr. Roedd yn dyst i'w allu fel cyfathrebwr fod cymaint o bobl nad oedd â chysylltiad â'r byd amaethyddol yn edrych ymlaen at ei erthygl ac yn ei mwynhau bob mis.

Mae ein calonnau yn torri wrth feddwl am y teulu ac anfonwn ein cydymdeimlad a'n cofion cynhesaf at Catrin, Morgan a Lois ac wrth gwrs Tom ac Ann, Catherine a Huw a'u teuluoedd.

Pan fydd y felltith afiechyd yma wedi pasio a byddwn eto yn gallu argraffu copi o Plu'r Gweunydd fe gawn dalu teyrnged haeddiannol i ŵr ifanc a fyddai wedi bod yn un o hoelion wyth ei gymuned am ddegawdau i ddod.

## Anrhydedd i Blu'r Gweunydd



This award was made by
The High Sheriff of Powys
to
Tir
Plu'r Gweunydd
in recognition of
great and valuable services
to the community

The award also recognises the appreciation of the residents and people of the said High Sheriff's County for activity and contribution in enhancing the life of the community

Dated this 31 day of March/Mawrth 2020

David L. Peate
High Sheriff

Mae fy amser fel Uchel Siryf Powys yn dod i ben ac rydw i wedi bod yn myfyrio ar yr holl brofiadau a gefais dros y flwyddyn ddiwethaf. Cefais fy nharo gan gymaint o wirfoddoli sydd yn cael ei wneud yn y sir. Mae'r ystadegau yn dangos bod Powys â'r cyfanswm uchaf o wirfoddoli yng Nghymru a Lloegr. Mae hwn yn rhywbeth y gallwn i gyd fod yn falch ohono. Mae gan yr Uchel Siryf allu i wobrwyo pobl o'r ardal gyda thystysgrif i gydnabod yr holl y maent yn ei wneud i'r gymuned ac i elusennau. Hoffwn gydnabod y cyfraniad enfawr mae 'Plu'r Gweunydd' (a'r tîm sydd yn ei gynhyrchu) wedi ei gyfrannu tuag at ddosbarthu newyddion yr ardal a chadw'r iaith Gymraeg yn fyw ac yn berthnasol dros y blynyddoedd. Hoffwn gyflwyno tystysgrif yr Uchel Siryf i'r Plu ac i'r tîm am eu cyfraniad amhrisiadwy. Yn anffodus, dan yr amgylchiadau presennol, mae wedi bod yn amhosib trefnu seremoni ffurfiol i gyflwyno'r dystysgrif, felly yn y cyfamser amgaeaf lungopi o'r dystysgrif y byddaf yn ei chyflwyno yn fwy ffurfiol ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.

Yn gywir
David Lloyd Peate J.P.
Uchel Siryf Powys

*Ar ran y golygyddion a swyddogion Plu'r Gweunydd hoffem ddiolch yn fawr iawn i David am yr anrhydedd uchod. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n cyfrannu mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y papur.*

## RHIFYN ARBENNIG O BLU'R GWEUNYDD

Un peth mae pawb yn cytuno arno ar hyn o bryd yw ein bod yn byw mewn cyfnod 'ansicr'. Er ein bod yn ymwybodol ers wythnosau lawer o ddifrifoldeb y firws milain Covid-19 ychydig yr oeddem yn sylweddoli cymaint y byddai'n effeithio ar fywydau pob un ohonom.

Rydym i gyd yn glynu at ganllawiau llym iawn ar hyn o bryd er mwyn gallu atal lledaeniad y firws.

Mae hyn yn golygu fod llawer iawn o bapurau bro wedi penderfynu peidio ag argraffu rhifynnau dros y cyfnod yma.

Penderfynwyd ein bod am gyhoeddi rhifyn '**gwahanol**' o Blu'r Gweunydd ar y we. Nid ydym yn cynnwys unrhyw newyddion lleol. Mae ynddo er hynny rhyw friwsion bach blasus i bawb.

Nid oes neb yn gwybod pryd y daw'r canllawiau i ben, ond yn y cyfamser byddwn yn parhau i gyhoeddi rhifynnau bach tebyg ar eich cyfer yn rheolaidd.

Diolch am eich cefnogaeth, amynedd a dealltwriaeth.

## Enillwyr Cadeiriau Eisteddfod Ysgol Caereinion

Llongyfarchiadau i Menna Jones ac Edward Tomkins a lwyddodd i ennill cystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod Uwchradd Caereinion yn ddiweddar. Mae mwy o luniau ar dudalen 4

# DYDDIADUR

| | |
|---|---|
| Ebrill 11 | Bore Coffi er budd Hen Gapel John Hughes Pontrobert yn Neuadd yr Eglwys, Y Trallwng rhwng [illegible] bore. Croesewir rhoddion o gynnyrch cartref, gwobrau raffl a nwyddau eraill erbyn 0930 y.b os gwelwch yn dda. Cysylltwch: Nia Rhosier (01938 500653) |
| Ebrill 16 | Rhiannon Evans enillydd Fedal Ryddiaith 2019 yn trafod cyfrol **Ingrid.** Cylch Llenyddol Maldwyn. Institiwt Llanfair am 7.30 |
| Ebrill 25 | Cyngerdd Y[illegible] Theatr Maldwyn yng Nghanolfan y Ba[illegible] |
| Ebrill 30 | Sgwrs gan [illegible]wi Robert[illegible] 'Afon Dyfi o'r mynydd i'r mor[illegible] Cwpan Pinc, Llangad[illegible] am 7 o'r gloch. £7 yn cynnwys llu[illegible]sgafn. Ffoniwch Mai 077[illegible]1808[illegible]4. Trefnir gan Cymdeithas Edwa[illegible]yd Maldwyn |
| Mai 8 | Ffair Llanerfyl. Neuadd Llanerfyl 3.30yh. [illegible]040s! Stondinau £10. Becki: 0777827[illegible]33, Jane:07850388741, Olwen: 82[illegible]520 neu aelodau'r pwyllgor |
| Mai 10 | [illegible]io Sul ddathlu Pen-blwydd ac i godi a[illegible]sbyty Gobowen ac i ymchwil [illegible]kinson's. Manylion gan Buddug, Rallt [illegible] 810 734 |
| M[illegible] 15 | Cy[illegible]erdd gan Gôr Llansilin yn Neuadd [illegible]ifihangel am 7.30. |
| Mehe[illegible] | Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Banw yng nghapel y Trallwm am 2.30 a 6 o'r gloch. |

| | |
|---|---|
| Medi 19 | Taith Gerdded Plu'r Gweunydd |
| Medi 19 | Noson o Ganu Gwlad efo Johnny a Hywel yn Henllan |
| Hydref 8 | Sioe Ffasiwn Kathy Gittins er budd Cylch Meithrin Dyffryn Banw yn y Royal Oak, Trallwm. |
| Hydref 22 | Pwyllgor Blynyddol Plu'r Gweunydd ym Mhontrobert am 7 o'r gloch. |
| Tach. 14 | Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi. |

GOHIRIO

## Diolch

Dymuna Enid Edwards, Talwrn ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i holl ffrindiau am yr 86 o gardiau a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn ddiweddar. Hefyd am y rhoddion ariannol o £425 sydd i'w rannu rhwng 'British Heart Foundation' ac Ambiwlans Awyr Cymru.

## 'Emyr - Byw i Ganu'




Bydd y CD ar gael yn y Cwpan Pinc, Llangadfan a Siop Haydn Ashton yn Llanfair. I'r rheini sy'n hunan-ynysu ac yn gaeth i'r cartref mae'n bosib ffonio Emyr ar 01938 820556 a bydd Emyr yn ei anfon drwy'r post.

## PREGETH AR Y WE

Dyma lun o'r Parch Euron Hughes yn paratoi CDs i'w aelodau sydd ddim ar Facebook. Os medrwch, mae'n werth mynd i safle Gofalaeth Llanfair Caereinion a'r Fro ar Facebook, i ddarllen Adnod y Dydd a ddewisir gan Euron ac mae ganddo hefyd oedfa fer bob bore Sul yn ystod yr argyfwng presennol.

## Diolch

Diolch i bawb am y dymuniadau caredig wrth i mi ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar Tom Plas Coch.

*A diolch i Tom a Margaret am eu rhodd hael i'r Plu wrth ddathlu eu penblwyddi eleni.*

## TIM PLU'R GWEUNYDD

**Cadeirydd**
Richard Tudor
Llysun, Llanerfyl

**Is-Gadeirydd**
Sian Vaughan Jones, Pontrobert

**Trefnydd Busnes a Thrysorydd**
Huw Lewis, Post, Meifod 500286

**Ysgrifenyddion**
Gwyndaf ac Eirlys Richards,
Penrallt, Llwydiarth, 01938 820266

**Trefnydd Tanysgrifiadau**
Sioned Chapman Jones,
12 Cae Robert, Meifod
Sion.chap@tiscali.co.uk
Meifod, 01938 500733

**Panel Golygyddol**
Alwyn a Catrin Hughes, Llais Afon,
Llangadfan 01938 820594
catrinhghs@aol.com

Mary Steele, Eirianfa
Llanfair Caereinion SY210SB
01938 810048
clicied@btconnect.com
Ffôn: 01938 552 309

Pryderi Jones
pjones80@btinternet.com

Dafydd Morgan Lewis
dafyddmlewis@ gmail.com

Wrth dyfu i fyny efo dau frawd mawr, roedd ffeindio llecyn tawel yn gallu bod yn dipyn o gamp. Ac os roeddwn yn llwyddo i ffeindio rhywle, doedd yr heddwch a'r llonyddwch braf yna byth yn para yn hir iawn a buan iawn buasai'r ffraeo a'r cega gwag dros bethau dibwys yn cychwyn unwaith eto.

Yn y dyddiau hynod o anarferol yma, y dyddiau o hunan ynysu ac ymbellhau cymdeithsaol…gall rhywun yn fuan iawn syrffedu ar dawelwch. Mae cael cyfnod o dawelwch yn llesol i'n heneidiau, ond fel pobol rydym angen cwmpeini a sgwrs. Ac er na allwn ymgynnull fel y dymunem, mae hi mor bwysig cadw cysylltiad â'n gilydd, un ai dros y ffôn neu gyda phethau mwy modern fel y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol megis Facebook ac yn y blaen.

Dros y dyddiau a'r wythnosau diwethaf dw i wedi bod yn ceisio gwella fy sgiliau cyfrifiadurol ac wedi treulio llawer o amser ar y ffôn. Ac i ddweud y gwir, mae clywed lleisiau gwahanol ar y ffôn bob dydd yn ddileit siort ora! Ac yn fwy na hynny…mae o'n fendith. Rydym angen cymdeithas, ac yn y cyfnod yma rydym ei angen yn fwy nag erioed.

Fel Cristnogion fe'n gorchmynnir ni i edrych ar ôl ein gilydd a phawb yn gyffredinol. Yn ystod y cyfnod yma mae bywyd yn mynd yn ei flaen, gyda digwyddiadau llawen a thrist. I'n plith ni fe ddaeth newyddion hynod o drist ac annisgwyl. Ac efallai na allwn ymestyn allan a chofleidio yn y ffordd naturiol ac arferol y byddwn ni yn ymateb i ddigwyddiadau trist ar hyn o bryd. Ond mae'r ymdeimlad o ddangos cariad a chymdeithas yn ymestyn allan mor gryf neu hyd yn oed yn gryfach nag erioed mewn amgylchiadau heriol. Fe ffeindiwn ffordd i gydymdeimlo, i ddangos consyrn ac i ddangos cariad mewn ffyrdd amgen a newydd, ond gwnawn hynny gyda'r un angerdd didwyll sydd yn ein diffinio ni fel pobol cefn gwlad a phobl cymdeithas glos.

Fe ysgrifennodd y proffwyd Eseia, "Os rhoddi o'th fodd i'r anghenus, a diwallu angen y cystuddiol, yna bydd y caddug fel canol dydd." Os gwyddoch am rywrai sydd yn unig yn ystod y dyddiau anodd hyn, plis codwch y ffôn arnynt. Rydw i a'm mrodyr wedi hen symud allan o dŷ ein rhieni, ond mae yna adegau lle buaswn yn hapus iawn i gael ffraeo dros y remote control unwaith eto… os ydych chi am gael sgwrs yna plis, plis codwch y ffôn arnaf i – mi fuaswn wrth fy modd yn clywed gennych.

Mi orffenaf gyda rhai o eiriau Paul yn ei Lythyr 1af at y Thesaloniaid

"…cysurwch y gwan-galon, cynorthwywch y rhai eiddil, byddwch yn amyneddgar wrth bawb."

Pob bendith i chwi i gyd…a chofiwch olchi eich dwylo, nid fel Peilat ond er mwyn bod yn ddiogel ac i ddangos gofal a chariad brawdol.

Cofion,
Euron
Y Parch. Euron Hughes
01678 540 545
07826 708652

## SEREN Y MIS

Yn y rhifyn arbennig yma o Blu'r Gweunydd roedd rhaid cael cymeriad 'arbennig' ar gyfer Seren y Mis. Felly, pwy yn well nag Ivy, Belan yr Argae

1. Disgrifia dy hun mewn 3 gair:
*Pen yn y gwynt (flynyddoedd yn ôl). Rwyf wedi pwyllo wrth fynd yn hŷn.*
2. Beth oedd dy hoff wers yn yr Ysgol Uwchradd?
*Hanes*
3. Beth yw dy hoff olygfa?
*Eistedd ar y fainc, syllu ar afon Rhiw yn crwydro heibio neu pan mae llifogydd mawr yn carlamu am yr Hafren. Gweld fflach o las ac oren wrth i las y dorlan hedfan heibio, efallai bod yn ddigon lwcus i weld pâr ohonynt.*
4. Petae ti'n cael cyfarfod unrhyw berson hanesyddol enwog - pwy fase fo neu hi?
*Yn bendant - nid Harry VIII. Ond, hoffwn fod wedi bod efo rhai o'r "plantsmen" canrifoedd yn ôl yn chwilio am blanhigion newydd yn China ayyb. Roedd nifer ohonynt.*
5. Beth yw dy hoff flodyn neu blanhigyn?
*Yyy.. cwestiwn anodd i'w ateb. Hoff ohonynt i gyd ond falle 'tiwlip'. Mae'n annwyl i mi. O diar fydd y blodau eraill ddim yn maddau i mi am ddweud hyn!*
6. Beth wyt ti'n ofni fwyaf?
*Mellt. Pan mae mellten yn taro'r ddaear bydd rhywbeth neu rhywun yn siŵr o fod yn ei llwybr.*
7. Beth yw dy hoff bryd bwyd?
*Mmm...cyn i mi gael clwy'r siwgwr, merang yn orlawn o hufen..trueni.*
8. Beth sy'n gwneud i ti golli dy dymer?
*Creulondeb tuag at anifeiliaid a phlant bach diniwed.*
9. Petae ti'n cael newid dy enw - pa enw fydde ti'n ddewis?
*Cafodd mam ei chymryd i'r ysbyty ar frys, ond daliais ymlaen am wythnos cyn imi gael fy ngeni. Dim syniad gan mam pa enw i roi i mi. Dywedodd y wraig yn y gwely nesaf, "Why not call her Ivy, as she was clinging to you". Oeddwn, mi roeddwn ar frys i ddod yma, roedd 7 mis yn hen ddigon hir cyn aros i weld y byd. Felly rwy'n hapus â'r enw Ivy. ( I survived! roeddwn yn pwyso llai na 4 pwys)*
10. Petae'r tŷ ar dan - pa ddau 2 beth y bydde ti'n achub?
*Thesawrus a'r Beibl, mae'r ddau yn ddiddorol iawn (i-pad os oes 'na drydan)...*

## LLUN O'R GORFFENNOL

Mae'r llun uchod o blas hynafol Dolarddun ger Castell Caereinion i'w weld yng nghatalog arwerthiant Stad Cyfronydd a gynhaliwyd yn 1927. Bu'r hen blasdy yn sedd i deulu'r Wynniaid am dros 300 o flynyddoedd. Anfarwolwyd Dolarddun yn ôl y sôn ar Awst 10fed 1485 pan arhosodd Harri Tudur yno ar ei ffordd i Frwydr Bosworth. Yn ôl y sôn aeth oddi yno ar gefn march gwyn a brynodd neu a fenthycodd gan Meredith Wynn, perchennog y plas.
Mae'n fwy na thebyg y daeth yr enw Arddun o gyfnod sy'n dyddio nôl i'r 6ed ganrif. Yn ôl y sôn daeth Arddun yn wraig i Brochwel Ysgythrog Tywysog Powys. Mae'n siŵr fod llawer ohonoch yn cofio'r plas ar ei draed ond fe'i chwalwyd yn ystod 70au'r ganrif ddiwethaf. Erbyn hynny roedd yn rhan o stad Cyfronydd.

# Tamaid Blasus ar Blât

Gyda phawb adre ers wythnosau mae llawer o dudalennau Facebook newydd wedi ymddangos i helpu gyda'r diflastod. Un dudalen Facebook boblogaidd yn tŷ ni yw Curo'r Corona'n Coginio. Mae pobl yn postio nifer o wahanol rysetiau diddorol sydd yn hawdd i'w coginio ac yn cynnwys cynhwysion cyffredin.
Dyma ffefryn Megan



**Cynhwysion:**
Tafell o fara
Menyn
Caws
1 ŵy
Pupur du

1. Pwyso cefn llwy fwrdd yng nghanol tafell o fara i wneud gwely i'r ŵy
2. Taenu menyn o amgylch ymyl y dafell
3. Cracio'r wŷ fel ei fod yn gorwedd yng nghanol y dafell
4. Gwasgaru caws o amgylch yr ymyl
5. Coginio yn y ffwrn am 10 munud ar 200$^{0}$C

**Cwis Crwydro Maldwyn**
1. Eben Fardd. 2.Ystrad Marchell. 3.Grace Evans. 4.Dolarddun. 5. Robert Roberts yr Ysgolor Mawr. 6. Dyddgu Owen. 7.Thomas Richards. 8. Thomas Lloyd. 9. John Hughes, Pontrobert. 10. Ruth. 11. Clement Davies. 12. Gwyddfach.13. John Pulestoon Jones. 14. Dafydd ap Gwilym. 15. Gwallter Mechain.16. R.S.Thomas. 17. Mary/Mair Richards. 18. Vavasor Powell. 19. Utica. 20. Llyn Coch-Hwyad.

**Clic...lle 'di hwn**
1.Great Escape, Trallwm (neu'r hen sinema); 2. Capel Moreia, Llanfair; 3. Eglwys Sant Ioan, Dolanog; 4. Capel y Crynwyr, Pontrobert; 5. Tŷ Mawr, Castell Caereinion

# EISTEDDFOD YSGOL CAEREINION

Ar ddydd Gwener, Chwefror 28ain, cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Uwchradd Caereinion yn yr Institiwt yn Llanfair. Roedd wythnosau lawer o baratoi o flaen llaw, gydag aelodau o'r chweched dosbarth unwaith eto eleni, yn mentora disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 ar gyfer y diwrnod mawr! Cynhaliwyd ymarferion dair gwaith yr wythnos o dan oruchwyliaeth staff; roedd yr ysgol yn llawn bwrlwm wrth i barti llefaru ymarfer yn un ystafell, ymgom drws nesaf, meim i gerddoriaeth yn atseinio i lawr coridor y chweched a thair ystafell waith cartref brysur er mwyn i bawb gael cyfle i greu rhywbeth ar gyfer yr adran gelf a chrefft. Wrth i wythnos yr eisteddfod nesáu, roedd y cynnwrf, yr egni a'r elfen gystadleuol yn cynyddu… pwy oedd am ennill? Llys Banwy, Hafren neu Efyrnwy?! Roedd gwahoddiad i'r ysgolion cynradd lleol fynychu'r eisteddfod fel cynulleidfa, ond yn anffodus, mi gwympodd ran o nenfwd y neuadd chwaraeon brynhawn Mercher y 26ain, ac felly roedd rhaid ail-feddwl. Byddai'n anodd ail-drefnu dyddiad oherwydd ein bod mor agos at y tymor arholiadau, felly penderfynwyd cynnal y steddfod yn yr Institiwt, ond yn anffodus, golygai hyn nad oedd digon o le i'n ffrindiau o'r cynradd ymuno gyda ni.

Roedd newid y cynllun mor hwyr â hyn yn sialens, doedd cael 150 o ddisgyblion i lawr i'r Institiwt ac yn ôl i fyny am eu cinio a gwneud yr un peth eto yn y prynhawn ddim yn syml! Diolch anferth i Miss Merrigan am ei phrysurdeb drwy'r dydd lau yn paratoi archgynllun staffio gwych o athrawon a disgyblion y chweched er mwyn galluogi hyn i ddigwydd! Yna deffro ar fore'r eisteddfod a'i gweld hi'n bwrw eira'n drwm… o diar! Yn ffodus, roedd y ffyrdd yn glir yn Llanfair ac mi drodd yn law ganol bore, felly popeth yn iawn! Roeddem yn ffodus iawn o gael Mr David Evans, ein cyn-brifathro, yno i feirniadu'r llefaru a'r cystadlaethau drama, Mr Neil Jones, aelod o staff yr ysgol i feirniadu'r dawnsio a Gwern ap Gwyn i feirniadu'r cystadlaethau cerddorol. Diolch i'r tri ohonynt am eu gwaith yn ystod y dydd. Beriniadwyd y gwaith llenyddol ar gyfer y gadair gan Betsan Llwyd, ac mae'n diolch yn fawr iddi hithau hefyd am ei gwaith.

Cawsom ddiwrnod gwerth chweil, er yr anawsterau! Roedd hi mor braf gweld brwdfrydedd y disgyblion; rhai sydd wedi hen arfer ar lwyfannau eisteddfodau ers blynyddoedd, ond eraill nad ydynt erioed wedi bod mewn eisteddfod o'r blaen! Roedd yn brofiad bythgofiadwy iddynt i ganu yng nghôr eu llys i gloi'r eisteddfod, i weld seremoni gadeirio, i ganu mewn band pop neu lefaru mewn parti. Mi gymerodd pob un disgybl ran mewn un ffordd neu'r llall, boed ar lwyfan neu yn yr adran waith cartref. Enillwyd y gadair Gymraeg gan Menna Jones a'r gadair Saesneg gan Edward Tomkins, y ddau yn ddisgyblion yn nosbarth 8C. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant. Yn ail am y gadair Gymraeg oedd Seren Walton, 7G ac yn gydradd drydydd oedd Cadi Jones a Dafydd Head 7G. Yn ail am y gadair Saesneg oedd Freya Bricknell 8G a'i brawd Tor Bricknell (7C) yn drydydd! Da iawn bawb!

Felly, pa lys enillodd ar ddiwedd y dydd?! Roedd tensiwn a chyffro mawr wrth i'r canlyniad gael ei gyhoeddi! Efyrnwy aeth â hi 'leni, gyda Hafren yn ail a Banw yn drydydd. Rhaid i mi orffen drwy ddiolch i'r staff fu mor barod eu cymorth ers wythnosau ac ar y diwrnod ei hun ac i ddisgyblion y chweched dosbarth am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd ar hyd yr wythnosau, roedd ambell i ddeigryn yn llygaid rhai ohonynt wrth wylio'r disgyblion roeddent wedi bod yn hyfforddi yn perfformio ar y llwyfan! Roedd cystadlaethau'r côr a'r meim i gerddoriaeth yn rhai bythgofiadwy! Diolch iddynt hefyd am eu cymorth wrth addurno'r Institiwt a chael y disgyblion iau i lawr yno o'r ysgol yn ddiogel. Diwrnod gwerth chweil, yn wir! Ymlaen yn awr at ymarferion yr Urdd, at arholiadau llafar a phrysurdeb gweddill tymor y gwanwyn.

Ymgom

Parti Llefaru

Cemlyn yn gweiddi

Rhys yn gwrando

Alaw yn edrych yn ddifrifol

Gan fod pawb wedi ei ynysu meddyliais y byddwn yn cysylltu ag aelodau *Cylch Darllen Dyffryn Banw* er mwyn gweld pa lyfr neu lyfrau oedd yn mynd â'u bryd y dyddiau hyn. Cefais yr ymateb hyfryd hwn gan Angharad Davenport.

'Wedi darllen '*Hen Bethau Anghofiedig'* gan Mihangel Morgan dyma fynd ati i feddwl am y llyfr nesaf. Mae *Sgythia* ar fy rhestr ddarllen er i mi ei gychwyn eisoes, ond ym mhrysurdeb bywyd ei roi i lawr heb ei orffen er mawr siomedigaeth i Nain lol, sy'n ei alw'n gampwaith a chlasur modern. O'r hyn rwyf wedi ei ddarllen rwyn cytuno, bydd rhaid dyfalbarhau ac ail gydio ynddo. Ond am rwan dyma droi at farddoniaeth a dwy o'm hoff flodeugerddi a gefais gan fy Nain – *Y Flodeugerdd Gymraeg* a *Hoff Gerddi Natur Cymru.* Mewn cyfnodau dyrys a chythryblus fel sy'n ein wynebu heddiw mae rhyw gysur i'w gael mewn barddoniaeth. Beirdd yr oesau a fu yn ysgrifennu am eu trybini hwy ac yn ein hatgoffa y daw eto haul ar fryn. Beirdd yn trafod rhyfeddodau natur, a'i harddwch godidog, yn ein tywys i ymhyfrydu a llawenhau yn y pethau bychain – sy'n parhau doed a ddelo gyda throad y rhod.
Wrth weld y Cennin Pedr '*Yn dawnsio yn y gwynt ar glaw/l bibau pêr rhyw gerddor cudd'* daw campwaith I.D. Hooson i'r cof. Er ein caethiwed ar hyn o bryd tybed a yw'n gyfle i ni werthfawrogi'r pethau bychain hyn ac i ryfeddu yn yr ysblander o'n cwmpas? Oes modd i ni fyw yn symlach a thrwy hynny ddarganfod ein bod yn hapusach ein byd? Gyda'r gwanwyn yn gryf a'r wyna yn ei anterth daw bywyd newydd llawn gobaith i'r tir. Yng ngeiriau Edward Morus:
Croeso i'r gwanwyn tawel cynnar,
Croeso i'r gog a'i llawen lafar,
Croeso i'r tes i rodio'r gweunydd,
A gair llon ac awr llawenydd.'
Wrth ddiolch i Angharad efallai y cawn gyfraniad gan rhywun arall yn y rhifyn nesaf. Gan fod cynifer o Siopau Llyfrau Cymraeg wedi cau ar hyn o bryd, cofiwch fod modd prynu llyfrau ar lein. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cynnig y gwasanaeth hwn ar gwales.com

## Coronafeirws (COVID-19)

**Aros gartref:**
* peidiwch â mynd allan heblaw i brynu bwyd, am resymau iechyd neu i weithio (dim ond pan nad yw hi'n ymarferol rhesymol i weithio gartref)
* arhoswch 2 fetr (6tr) i ffwrdd oddi wrth bobl eraill
* golchwch eich dwylo cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd adref
Gall unrhyw un ledaenu'r feirws.

# Wertha' i byth mohono

Colofn fach i'w hon lle gwahoddir darllenwyr i ddewis dau neu dri o eitemau sydd yn drysor o ran sentimentalrwydd ond yn hollol ddiwerth yn ariannol.

**'I'm Suzy'**




Pan oeddwn i'n lodes fach dros hanner can mlynedd yn ôl roedd gen i lyfr bach o'r enw 'I'm Suzy'. Roeddwen wedi gwirioni efo'r llyfr, yn bennaf mae'n debyg oherwydd roedd y lluniau mor hyfryd. Roedd rhywun yn gorfod darllen y llyfr imi yn rheolaidd, nes oeddwn i wedi dysgu'r geiriau ar gof.

Er fod rhai o'r tudalennau wedi rhwygo a llawer o sgribls mewn beiro ar hyd y lluniau hyfryd fe drysorais y llyfr a daeth gyda mi pan symudais i Ddolanog ac yna i Langadfan. Er mwyn torri'r stori'n fyr, roedd Alwyn y gŵr wedi penderfynu cael 'spring clean' heb yn wybod i mi ac mae'n debyg ei fod wedi taflu lot o hen lyfrau 'diwerth' i'r sgip yn Potters!!! Wel, erbyn i mi ddarganfod y drosedd roedd hi'n rhy hwyr - a bu hi o fewn dim inni gael 'divorce'! Doedd dim amdani ond chwilio'r we am gopi arall ac yn wir cefais hyd i un (mewn cyflwr perffaith). Felly mae 'I'm Suzy' yn ôl yn saff ar y silff lyfrau.

**Llestri Betsi**

Mae'r ail eitem yn dipyn hŷn. Cwpan a soser, bowlen siwgr a jwg llaeth. Cefais y llestri gan Mrs Margaret Jones, Cefnau (nain Alun ac

Elen) pan oeddwn i'n lodes fach a hithau yn ei nawdegau. Roedd hi am imi gael y llestri oherwydd roedd hi wedi eu cael yn anrheg gan fy hen hen nain, Betsi Blainey.

Ganwyd Elizabeth Davies yn 1827 mewn lle o'r enw Caerddol yn ardal Rhiwhiriaeth a bu'r teulu hefyd yn byw yn Nhynyfawnog. Priododd Betsi a gŵr o'r enw Richard Blainey a daeth i fyw i Lanerfyl. Os ewch i Sain Ffagan fe welwch y llun uchod ohoni yn yr amgueddfa newydd sy'n arddangos bob math o grefftau gwledig. Roedd Betsi yn gorfod gwau sanau a'u gwerthu am swllt y pâr er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Roedd hi'n byw yn Tanllan a bu farw yn 86 oed ym 1913. Gallaf ddychmygu Betsi yn prynu'r llestri yn un o Ffeiriau Llanerfyl am geiniog neu ddwy. Ychydig y bydde hi'n meddwl y pryd hynny y bydde'r llestri yn cael eu trysori gan ei gor-gor wyres dros ganrif yn ddiweddarach.
Dyna ddwy eitem hollol ddi-werth – ond yn drysor amhrisiadwy i mi.

**Catrin**

**Twitter: @PluGweunydd**

**https://www.facebook.com/plurgweunydd**

**'Ariennir Plu'r Gweunydd** *yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'*

# PORI TRWY'R PLU

Dyma gyfle i bori trwy hen rifyn o'r Plu ac edrych ar rai o'r erthyglau a ymddangosodd yn rhifyn Mehefin 1992. Detholiad byr o'r erthyglau a ymddangosodd a geir ar y dudalen yma.

Sarah ac Edward Vaughan a Caryl a Rhys Evans

*Yn ystod 1992 bu cryn brysurdeb yn yr ardal wrth i gwmni Ffilmiau'r Tŷ Gwyn ffilmio cyfres deledu yn seiliedig ar nofel enwog Islwyn Ffowc Elis 'Yn ôl i Leifior'*

## Plant Lleifior

Am chwe mis eleni mae pedwar o blant o ardal Llanerfyl, Powys yn cael mwynhau bywyd efo sêr y byd ffilm a theledu yng Nghymru. Cafodd dau frawd a chwaer, Sarah ac Edward Vaughan o Gwm Nant yr Eira, a Caryl a Rhys Evans o Barc Llwydiarth, Llangadfan eu dewis i chwarae rhan pedwar o blant teulu Lleifior mewn cyfres deledu newydd sy'n cael ei ffilmio ar hyn o bryd.

Yn ystod y chwe wythnos diwethaf, bu'r cwmni yn ffilmio yn Henblas ym Môn, ac roedd yn rhaid i'r plant godi'n fore i gyrraedd y lleoliad. "oedden ni'n cychwyn am 5.30 y bore er mwyn cyrraedd y lleoliad mewn pryd", meddai Beryl, mam Sarah ac Edward. "Ac roedd y plant yn mwynhau'n arw cael esgus i golli'r ysgol. Ond roedden nhw hefyd yn mwynhau cwarfod â'r actorion eraill, ac mae pawb yn y cwmni wedi bod yn glên iawn efo nhw. Mae'r plant yn cael bihafio'n naturiol wrth chwarae rhan plant Lleifior."

*Yn 1992 roedd gennym golofn o'r enw Lladron yn Dwad a oedd yn ein hysbysu am unrhyw droseddau a fu yn ardal y Plu yn ystod y mis. Bu'n rhaid inni roi gorau i'r golofn oherwydd roedd yn dychryn darllenwyr!*

## LLADRON YN DWAD

### Lladron

Bu lladrad o Bridge Garage, Llanfair noson 7fed/8fed Mai. Dygwyd sigarennau a mân bethau eraill. Yn ystod bore Sul, Mai 10, gwelwyd dau berson tu cefn i Fodurdy Brookside, Llanfair ond dianc a wnaethant heb gael cyfle i wneud dim. Arestiwyd tri person o'r Midlands ar ôl ymgais i ladrata o Fodurdy Cyfronydd ar y 10fed/11eg Mai.

### Y Llew Du

Gwrthodwyd cais am drwydded i'r dafarn hon gan Ynadon Trallwng. Roedd yr ynadon o'r farn nad oedd eisiau tafarn arall yn y pentre. Roedd cyflwr yr adeilad hefyd yn rheswm ychwanegol a roddwyd am wrthod y cais.

### Llwydiarth

Torrwyd i mewn i Ceunant Coch, Llwydiarth prynhawn Gwener, Mai 15, a dygwyd addurn a thlysau. Bu nifer o ddigwyddiadau tebyg yn yr ardal yn ddiweddar. Mae'r heddlu yn gofyn i bawb fod ar eu gwyliadwriaeth.

Plu'r Gweunydd

FFAIR Y PLU

*Colofn arall ar y pryd oedd casgliad o Straeon Ysbryd yn ardal y Plu. Dyma restr o rai o ysbrydion Llanwddyn.*

## YSBRYDION

*Ysbryd Ffynnon Dwgan:* a roddwyd i orffwys dan garreg fawr yng ngwaelod ffynnon ger yr hen bentre. Roedd i fod yno hyd nes treiddiai'r dŵr dwll yn y garreg.

*Ysbryd y Gro:* Ysbryd trafferthus arall a arferai daflu mwd a baw at bobl. Caethiwyd ef yn y nant uwchben Rhiwargor a bydd yno nes bydd gwely'r nant yn sych.

*Ysbryd Llwyn y Famaeth:* sy'n ymddangos ar ffurf llo.

*Ysbyty Fedwddu:* Weithiau'n ddyn heb ben, neu'n geffyl hardd a'i farchog, dro arall yn darw mawr neu hyd yn oed yn filgi.

*Ysbryd y Llan:* mewn ffurfiau amrywiol – fel pac o gŵn hela neu fflachiadau o dân

*Ysbryd Ceunant Pistyll:* yw'r ysbryd sy'n gwarchod dros Sant Wyddyn a'i drysor ger y fan a elwir yn 'Wely Wddyn'.

**Alwyn Hughes**

## Dathlu yn yr Adfa 1992

Yn yr Adfa eleni dethlir 250 o flynyddoedd ers sefydlu'r achos. Dyma beth o'r hanes.

Ymwelodd Hywel Harris â'r gogledd ym 1740 ac â sir Drefaldwyn am y tro cyntaf. Bu'n pregethu yn Ninas Mawddwy a Llanuwchllyn a'r Bala. Ar ei ffordd adref pregethodd yn yr Adfa a Bwlchcaehaidd. Bu'n pregethu hefyd wrth eglwys Llanllugan, Tyncoed ac eglwys Llanwyddelan.

Mor gynnar â 1742 roedd canghennau o eglwysi wedi'u sefydlu yn Llanllugan a Llanwyddelan. Roedd Lewis Evans wedi clywed Hywel Harris yn pregethu yn Nhrefeglwys. Wedi hynny dechreuodd yntau gynghori a phregethu. Roedd yn byw gyda'i daid a'i nain yn y Crugnant, Llanllugan ac yn wehydd wrth ei alwedigaeth. Erlidiwyd ef yn greulon yn lleol a hefyd ar ei deithiau i'r gogledd. Yn lonawr 1774 roedd y Cwrdd Misol yn Nhrefecca wedi penderfynu bod Lewis Evan i fynd cyn belled ag y gallai i sir Feirionnydd a'r Gogledd. Teithiodd lawer yng Ngwynedd am flynyddoedd a dioddefodd erledigaeth yn aml. Carcharwyd ef ar gam am chwe mis yn Nolgellau. Eleni yw deucanmlwyddiant ei farw: 1792-1992.

## Ffebrins

Mae bron a dod yn amser cael tarten ffebrins a does dim byd gwell ar dywydd poeth. Mae pobl y sowth a phobl y gogledd yn edrych yn syn pan soniwch chi wrthyn nhw am ffebrins. 'Eirin Mair' yw gair rhai amdanynt, neu 'gwsberis'. Tybed o ble y daeth y gair 'ffebrins'? Gair Sir Gaer a'r gororau amdanynt yw 'feaberrie', a hwnnw mae'n debyg a roddodd 'ffebrins' inni. Mewn cylchgrawn Saesneg gwelais awgrymu y gelwid y ffrwyth yn feaberries am fod eu sudd yn dda am wella **fever**. Ond weithiau fe'u galwyd yn fayberries (fay fel yn fairy) am fod hen goel fod canghennau pigog y coed ffebrins yn cadw tylwyth teg yn ddiogel oddi tanynt. Glywsoch chi erioed hanesyn am y ffebrins?

**Nest Davies**

## Portread o Ieuan Jones, Mathrafal gan Frances Môn

Ym 1969, gosododd Pwyllgor Addysg Sir Drefaldwyn delynau bach yn yr ysgolion cynradd. Dangoswyd diddordeb mawr yn y delyn pan gyrhaeddodd Ysgol Gynradd Llanfair, yn arbennig gan y merched. Ond yn eu plith roedd yno un bachgen, Ieuan, a oedd y pryd hynny yn saith mlwydd oed.

Cyn gynted ag y dechreuodd y gwersi, collodd ddiddordeb mewn llawer o bethau eraill gan gynnwys chwaraeon. Sylweddolodd y Prifathro ar y pryd Mr Elfed Thomas, yn ei ddoethineb fod gan y bachgen dalent arall a rhoddodd ganiatâd iddo anghofio am ei chwaraeon a mynd at y delyn, ac mewn gwirionedd dyma'r delyn sy'n dal yn yr ysgol heddiw.

Yn ystod y blynyddoedd yn yr Ysgol Gynradd, caniatawyd iddo ymarfer am oriau. Un diwrnod adroddodd Elfed hanes Dafydd a Saul yn y Beibl wrtho, gan ddweud pan oedd Saul mewn tymer ddrwg, mai Dafydd gyda'i delyn oedd yr unig un a allai wneud iddo deimlo'n well. Cymerodd Ieuan a'i ffrindiau sylw o hyn, a phryd bynnag y byddai'r Prifathro mewn tymer ddrwg, byddai Ieuan yn mynd at y delyn ac yn chwarae 'Mor Fawr Wyt ti'. Roedd hyn yn gweithio bob tro - roedd Elfed yn ôl yn ei hwyliau gorau arferol yn fuan iawn.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd Mrs Hefina Thomas yn athrawes yn yr ysgol a ffurfiodd barti Cerdd Dant ardderchog a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfodau'r Urdd ac eisteddfodau eraill a chyngherddau. Roedd y parti hwn ynghyd ag Ieuan, Siân James a minnau, yn ffurfio Y Gwerinwyr Bach. Roedd Ieuan nid yn unig yn canu unawdau ar y delyn, ond yn cyfeilio i'r cantorion hefyd. Cawsom amser hapus iawn yn teithio ymhell iawn - Birmingham, Walsall, Caernarfon, Caer, y teledu yng Nghaerdydd a llawer o fannau eraill.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 8 | | 1 | | | |
| S | U | D | O | C | W | 4 | 3 | |
| 5 | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | | | 5 | | 9 | | | 4 |
| | | 5 | 1 | | 3 | 6 | | |
| | 3 | | | | | | 5 | |
| | 4 | 7 | 6 | | 8 | 1 | 3 | |
| | | | | | | | | |
| | 8 | 1 | 3 | | 7 | 2 | 4 | |
| | 6 | | | | | | 9 | |
| | | 9 | 4 | | 2 | 8 | | |
| 8 | | | 7 | | 5 | | | 1 |

Diolch yn fawr iawn i'r 30 ohonoch anfonodd eich Sudocw i fewn mis diwethaf. Roedd rhain yn cynnwys: Ann Evans, Bryncudyn; Ivy; Beryl Jacques, Cegidfa; David Smyth, Foel; Eirlys Edwards, Pontrobert; Tudor Jones, Arddlîn; Ifor Roberts, Llanymawddwy; Llinos Jones, Dolgellau; Delyth Thomas, Caersws; Jean Preston, Dinas Mawddwy; J. Jones, Y Trallwng; Moyra Rowlands-Goodger, Morda; Ann Lloyd, Rhuthun; Megan Roberts, Llanfihangel; Linda, Roberts, Abertridwr; Meirion Jones, Penybont Fawr; Eirys Jones, Dolanog; Menna Lloyd, Pontrobert; Maureen Talar-deg; Iwan Jones, Rhiwbeina; Llinos Jones, Cegidfa; Nora Bebb Caermynach; Bethan Davies, Penybontfawr; Glenys Richards, Pontrobert; Rhiannon Gittins, Llanerfyl; Cleds Evans, Llanfyllin; Arfona Davies, Bangor; Oswyn Evans, Penmaenmawr; Bethan Lewis, Pennal; Mavis Lewis, Llanfair Caereinion; Eirwen Robinson, Cefn Coch. I fewn i'r fasged olchi aeth yr enwau a'r enw cyntaf allan o'r fasged oedd Moyra Rowlands-Goodger sy'n ennill £10 i'w wario yn un o siopau Charlie's. Er bydd rhaid aros nes bydd y siop yn ail-agor!

Ni fydd gwobr y mis yma ond mae croeso i chi gwblhau y pôs Sudocw uchod os dymunwch. Hwyl am y tro.




Diolch i Tom Bebb yr Hendre a Siân Foulkes, Yr Adfa am adael imi wybod fod y gylfinir wedi cyrraedd. Nid wyf wedi clywed ei chri fy hun eto.

Mae'r wenoliaid ar fin cyrraedd, er na ddaeth cofnod eto yn yr ardal hon. Gwelodd Mair (Pentre Bach gynt) un yn Llanuwchllyn y penwythnos diwethaf.

Gadewch inni wybod os gwelwch y wennol, neu glywed y gog – siawns na fyddant hwy yn dal yr aflwydd feirws ac yn gorfod hunan-ynysu!

# Cwis Crwydro Maldwyn

Gan nad ydym yn cael gadael ein cartrefi bum yn darllen 'Crwydro Maldwyn' gan T.I. Ellis. Fedrwch chi ateb y cwestiynau hyn sy'n codi o'i daith trwy ardal y 'Plu'?

1. Beth oedd enw awdl Eben Fardd enillodd wobr iddo yn Eisteddfod Powys Y Trallwng 1824?
2. Beth oedd enw'r Abaty godwyd ger y Trallwng?
3. Ar ôl pwy yr enwyd y bwthyn bychan du a gwyn ger Eglwys y Trallwng?
4. Dywedir i Harri Tudur aros yma ar ei ffordd i Bosworth?
5. Pwy ddaeth yn brifathro i Gastell Caereinion yn 1852 pan oedd yn 17 oed?
6. Pwy oedd yr awdur fu'n brifathrawes ar ysgol arbennig i ferched yng Nghyfronydd?
7. Pwy oedd rheithor Llangynyw rhwng 1826 ac 1856?
8. Pwy o Fathrafal ddaeth yn llywydd talaith Pennsylvania yn yr ail ganrif ar bymtheg?
9. Pwy yw awdur yr emyn:
   'O! anfon di yr Ysbryd Glân,
   Yn enw Iesu Mawr,
   A'i weithrediadau megis tân,
   O! deued ef i lawr.
10. Beth oedd enw gwraig John Hughes Pontrobert?
11. Pa Aelod Seneddol fu'n byw ym Mhlas Dyffryn, Meifod?
12. Cysegrwyd Eglwys Meifod i dri sant gwahanol – Tysilio, Y Santes Fair a phwy arall?
13. Pwy ddaeth yn weinidog i Moreia, Llanfair Caereinion yn 1918?
14. Pa fardd fu'n 'Cyrchu Lleian' yn Llanllugan?
15. Pwy yw awdur yr englyn hwn fu'n offeiriad ym Manafon?
    Y nos dywell yn distewi – caddug
    Yn cuddio Eryri,
    Yr haul yng ngwely'r heli,
    A'r lloer yn ariannu'r lli.
16. Pwy oedd awdur '*Song at the Year's Turning?*
17. Pwy oedd yn byw ym Mryn Tanat, Llanerfyl am ddwy flynedd ar bymtheg hyd at ei marw yn 1877?
18. O dan arweiniad pwy y llosgodd milwyr Cromwell Reithordy Llangadfan?
19. Ym mha le yn America yr ymsefydlodd Sam Ellis ar ôl gadael Penantwrch?
20. Mae plwyfi Llanerfyl, Llangadfan, Garthbeibio, Cemais a Llanbryn-mair yn cwrdd wrth y llyn hwn?

# Clic... lle 'di hwn?

Mae'r adeiladau yma i gyd yn ardal Plu'r Gweunydd.
Ydych chi'n gallu eu henwi?



1

2



3

4

5

Cewch yr atebion i'r ddau gwis ar dudalen 3

Helo blant
Ydych chi erioed wedi clywed am 'origami'? Mae origami yn dod o wlad Siapan ac mae'n hen, hen grefft o blygu papur i wneud siapau diddorol. Beth am roi cynnig ar wneud y ci bach doniol yma.



1. Yn gyntaf bydd angen darn o bapur sgwâr, ei blygu yn ei hanner a'i agor allan eto.



2. Plygwch yn ei hanner eto o'r top i'r gwaelod.



3. Plygwch y corneli fel yn y darlun uchod.



4. Plygwch gornel isaf yr haen uchaf o bapur.



5. Plygwch y triongl i fyny unwaith eto

3. Mae angen tynnu llun llygaid, trwyn a thafod i'r ci.

3. Er mwyn gwneud i'r ci siarad mae angen dal yn ei glustiau a'u tynnu nhw yn ôl ac ymlaen.

## Lliwio'r Enfys

Efallai eich bod yn gwybod fod llawer o blant yn tynnu lluniau enfys a'u rhoi yn y ffenestr er mwyn diolch i'r doctoriaid a'r nyrsys sydd yn edrych ar ôl pawb sydd yn sâl. Beth am liwio'r enfys yma a'i gosod yn ffenest eich tŷ chi. Dwi wedi rhestru lliwiau'r enfys i chi.

coch oren melyn gwyrdd
glas porffor pinc